S4C

**Bwrdd S4C**
Cyfarfod 481
10:00, 11 Rhagfyr 2025
Ystafell 1, Yr Egin, Caerfyrddin

## COFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Guto Bebb [GB], Aelod Anweithredol (ag eithrio eitemau 4 i 7)
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol (o eitem 2 ymlaen)
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Nadine Beaton [NB], Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (ar gyfer eitem 4) – yn rhithiol
- Carwyn Donavan [CD], Swyddog Bectu yng Nghymru (ar gyfer eitem 4)
- Manon Edwards Ahir [MEA], Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata (ar gyfer eitem 8) – yn rhithiol
- Sioned Geraint [SG], Comisiynydd Plant (ar gyfer eitem 5)
- Eilir Jones [EJ], Pennaeth Ymchwil Cynulleidfa (ar gyfer eitem 8) – yn rhithiol
- Elinor Price [EP], Rheolwr Cyllid (ar gyfer eitem 6)
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus (ar gyfer eitemau 3 ac 8)
- Sharon Winogorski, Prif Swyddog Cyllid (ar gyfer eitem 6) – yn rhithiol

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad oedd yn amlinellu'r cyfarfodydd yr oedd wedi cynnal ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.<br><br>Nodwyd bod tymhorau GB a SuD yn dod i ben yn ystod 2026, gyda thymor GB yn dod i ben ddiwedd Chwefror a thymor SuD ddiwedd Gorffennaf. O ganlyniad, bydd angen cynnal prosesau i benodi dau aelod anweithredol newydd i Fwrdd S4C, gyda'r bwriad i | |

un ddechrau'n hwyrach yn y flwyddyn ar ôl diwedd tymor SuD. Deallir bod y DCMS yn gweithio i gyhoeddi hysbyseb ar gyfer yr apwyntiadau hyn yn y flwyddyn newydd, gyda'r broses recriwtio'n canolbwyntio'n benodol ar unigolion â sgiliau digidol a chyfreithiol.

Cafodd y Cadeirydd sgwrs anffurfiol ddydd Llun yn Llundain gyda Mathew McKinnon, swyddog cysylltiadau cyhoeddus Reform, sy'n wreiddiol o Aberhonddu. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gyflwyno S4C, egluro ein gwaith a'n cyfraniad economaidd, yn enwedig mewn etholaethau fel Llanelli.

Nododd un o'r Aelodau Anweithredol y Bwrdd ei bod wedi mynychu Cynhadledd y Ganolfan Dysgu Cymraeg, gan bwysleisio pa mor galonogol oedd gweld bod S4C yn cael ei ystyried yn elfen greiddiol wrth gefnogi dysgwyr.

**Penderfyniad: Ehangu cwmpas yr eitem hon i'r dyfodol i ganiatáu i holl aelodau'r Bwrdd gynnig diweddariadau perthnasol.**

Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i ddiweddaru'r Bwrdd ar wahanol faterion nad oeddent yn ymddangos ym mhapurau'r cyfarfod:

<u>Cwrdd i Ffwrdd Staff S4C</u>

Cynhaliwyd Cwrdd i Ffwrdd staff S4C yn yr Egin ddoe, a bu'n ddiwrnod llwyddiannus. Un o'r elfennau mwyaf gwerthfawr oedd y sesiwn lle gofynnwyd i staff 'ddychmygu'r dyfodol', gan nodi un peth y byddai S4C yn parhau i wneud yn 2030, un peth na fyddai'n cael ei wneud mwyach, ac un syniad newydd i ddechrau ei weithredu.

<u>Cyfarfod Chwarterol DCMS</u>

Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol gyda'r DCMS ar 25 Tachwedd 2025. Cafwyd arwydd clir y bydd Papur Gwyrdd ar Siarter y BBC yn cael ei gyhoeddi ar 15 neu 16 Rhagfyr, gyda chyfnod ymgynghori o dri mis yn dilyn hynny. Mae'n hanfodol defnyddio'r cyfnod hwn i weithio gyda'n rhanddeiliaid i gyflwyno'n achos yn gryf. O ran cais S4C am ariannu digonol i'r dyfodol, disgwylir i'n cyflwyniad ffurfiol gael ei wneud tua'r haf, ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

[ymunodd SuD â'r cyfarfod]

<u>Adolygu prosesau cydymffurfiaeth cynnwys a chyfathrebu mewn argyfwng</u>

Ar gais y Prif Weithredwr, roedd cydweithwyr wedi adolygu ein prosesau yn sgil profiad diweddar y BBC, er mwyn sicrhau ein bod yn barod pe bai problem neu argyfwng yn codi gyda darn o'n cynnwys. Arweiniodd IM yr adolygiad hwn mewn cydweithrediad â LlI a MEA. Mae'r broses newydd yn cynnwys 'refer-ups' i DE fel Cadeirydd.

**Penderfyniad: Rhannu copi gyda'r Bwrdd o'r prosesau er mwyn ymateb i argyfwng mewn perthynas â darn o gynnwys S4C.**

<u>Pennaeth Gwasanaethau Technegol a BSM</u>

Roedd SC i ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn galendr, ond mae wedi cytuno i aros tan ddiwedd Ionawr. Yn ei le, bydd Guto Thomas yn dechrau fel Pennaeth Gwasanaethau Technegol ar secondiad o'r BBC o ddechrau Ionawr. Hefyd, mae Brad Cole wedi'i benodi fel Rheolwr Prosiect ar gyfer y gwaith i ddisodli BSM (Broadcast Station

| | | |
|---|---|---|
| | Management – y system sy'n rheoli'r holl wybodaeth am ein cynnwys o gomisiynu i ddarlledu a thalu). Mae BSM yn system bwrpasol i S4C, ond ar hyn o bryd dim ond un neu ddau berson sy'n deall y cod, felly mae angen datrysiad cynaliadwy. Mae gan Brad Cole brofiad o gyflwyno systemau tebyg gyda darlledwr yn Sweden, ac un o'i gyfrifoldebau cyntaf fydd lansio'r broses dendro yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Caiff ei gyflogi ar gytundeb fydd yn para o leiaf 18 mis.<br><br><u>Trefniadau Adfer mewn Trychineb (DR – Disaster Recovery)</u><br><br>Roedd system DR S4C yn hanesyddol wedi'i lleoli yn Gloworks, ond mae bellach yn cael ei symud i Tinopolis. Mae popeth yn ei le o'n rhan ni a Tinopolis, ond rydym yn aros i Arqiva ddarparu mynediad i Tinopolis i'r rhwydwaith darlledu i hwyluso'r broses. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â systemau Tinopolis, felly ni fydd effaith pan fydd Tinopolis yn adleoli o'u hadeilad presennol.<br><br>Bydd y newid i Tinopolis yn debygol o wella'r gwasanaeth oherwydd roedd Gloworks yn gallu delio dim ond â chynnwys wedi'i recordio, tra bod Tinopolis yn gallu bwydo cynnwys byw. Bydd hefyd yn ddefnyddiol gan nad yw'r DR yn mynd i fod yng Nghaerdydd, rhag ofn y bydd problem yn effeithio ar yr ardal honno.<br><br><u>Prosiect Media Cymru</u><br><br>Mae Prosiect Media Cymru wedi canolbwyntio ar drefniadau S4C ar gyfer cyhoeddi digidol ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad i'r gwaith, mae tri aelod o staff bellach yn gweithio ar wella metadata ein cynnwys i'w wneud yn haws i'w ddarganfod ar wahanol lwyfannau, ac yn archwilio'r hyn sydd ei angen i wella gwelededd ar deledu clyfar. Maent hefyd yn ein cefnogi i negydi gyda'r platfformau er mwyn sicrhau bod yr ap Clic wedi'i raglwytho ac yn amlwg, yn ogystal ag integreiddio ein cynnwys yn well yn eu systemau. | |
| 3. | [ymunodd MW â'r cyfarfod]<br><br>**Is-Strategaeth Gynnwys**<br><br>Cyflwynodd GE yr Is-Strategaeth ddrafft ddiwygiedig, gan egluro bod MW wedi ymgorffori'r adborth a gafwyd gan y Bwrdd yn ystod ac wedi'r cyfarfod ar 23 Hydref 2025.<br><br>Trafodwyd y drafft diweddaraf, gan ganolbwyntiau ar y themâu allweddol canlynol:<br><br><u>Pwrpas a chynulleidfa darged y ddogfen</u><br>• Nodwyd yr angen i'r ddogfen fod yn fyrrach ac eglur, gan gynnwys strategaeth fesul genre a sut mae'n ateb anghenion y gynulleidfa.<br>• Yr angen i ystyried pwy fydd yn darllen y ddogfen a pham – megis y Bwrdd, y sector, comisiynwyr a rhanddeiliaid gwleidyddol – a beth mae pob un angen ei gael ohoni. Nodir bod angen osgoi dogfen swmpus na chaiff ei ddarllen ac efallai ystyried 'deep dives' fesul genre fel atodiad. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn addas creu fersiynau gwahanol o'r ddogfen – fersiwn cryno ar gyfer y sector a fersiwn llawn i'r Bwrdd, gan sicrhau cysondeb a dibenion clir. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Nodwyd bod angen diffinio'n glir rhwng strategaeth a phroses: mae strategaeth gorfforaethol eisoes yn bodoli, a rhaid i'r is-strategaeth gynnwys felly teimlo'n ddigon gwahanol.<br><br><u>Dadansoddiad a Dealltwriaeth o'r Gynulleidfa</u><br>• Nodwyd diffyg dadansoddiad manwl o'r gynulleidfa ac angen dealltwriaeth fesul carfan:  beth maent yn hoffi, ble maent yn gwylio, ymddygiad ar wahanol blatfformau, a sut i apelio at gynulleidfaoedd newydd.<br>• Pwysleisiwyd yr angen i gyfeirio'n fwy at y gynulleidfa graidd: peidio â'u dieithrio wrth ehangu. Rhaid cynnal a thyfu'r craidd wrth ganfod cynulleidfaoedd newydd.<br>• Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ehangu amrywiaeth (gan gynnwys yn ddaearyddol ar draws Cymru) a dysgu gwersi o gynyrchiadau blaenorol (ee. Ar y Ffin).<br><br><u>Blaenoriaethau Cynnwys a Chyllideb</u><br>• Nodwyd yr angen i nodi syniadau penodol a blaenoriaethau cynnwys, gan egluro'r rhesymeg a'r gynulleidfa darged, yn ogystal â bod yn glir ar yr hyn nad ydym am ei wneud.<br>• Awgrymwyd y dylid darparu eglurder ar ddisgwyliadau comisiynu fesul genre, a dangos blaenoriaethau drwy ddyraniadau cyllideb, o bosib drwy ddefnyddio canrannau yn hytrach na ffigurau ariannol absoliwt.<br>• Yn ogystal, rhaid diffinio KPIs a mesuryddion i fesur llwyddiant, gan gydnabod y tensiwn rhwng anghenion y gynulleidfa, y sector a rhanddeiliaid gwleidyddol.<br><br><u>Strategaeth Ddigidol a Chynnwys</u><br>• Nodwyd bod angen egluro sut mae'r ochr ddigidol yn rhan greiddiol o'n is-strategaeth gynnwys, gan ganolbwyntio ar drefniadau cynnwys a chomisiynu yn hytrach na manylion technegol.<br>• Dylid egluro'r model digidol ar gyfer dosbarthu, ymgysylltu ac ail-ddefnyddio cynnwys, gan gynnwys y rôl y gall llwyfannau fel YouTube ei chwarae, tra'n cadw'r ffocws ar strategaeth gynnwys a chomisiynu yn hytrach na manylion technolegol.<br>• Hefyd, nodwyd yr angen am eglurder ynghylch trosglwyddo adnoddau o linol i ddigidol a map buddsoddi clir.<br><br><u>Y Gymraeg</u><br>• Mae angen mesur effaith ar y Gymraeg a lles diwylliannol wrth ehangu cynulleidfa, heb eithrio'r craidd.<br>• Dylid egluro sut mae chwaraeon yn cyfrannu at genhadaeth iaith, a chydnabod sensitifrwydd ceisiadau ariannu, gan benderfynu pryd i gymryd risg a sut i leddfu effaith ar ffigurau gwylio.<br><br><u>Strwythur, Llywodraethu a Perthynas â'r Sector</u><br>• Holwyd am eglurder ynghylch pwy o blith y tîm comisiynwyr sy'n atebol am dargedau amrywiaeth.<br>• Os caiff Pwyllgor Cynnwys ei sefydlu, dylai ei rôl fod i oruchwylio cyflawniad yr is-strategaeth.<br>• Nodwyd hefyd, wrth ystyried a ddylid gwahodd adborth yn benodol gan y sector ar yr is-strategaeth, bwysigrwydd bod yn ymwybodol nad yw pob cwmni'n aelod o TAC. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diolchodd GE i'r Bwrdd am yr holl adborth a nodi bod nifer o safbwyntiau gwahanol wedi'u mynegi. Cytunwyd bod gwaith sylweddol ar ôl i'w wneud ar y strategaeth, ac awgrymwyd bod angen digon o amser er mwyn parhau i ddatblygu'r drafft.<br><br>Nodwyd hefyd bod angen adolygu'r canllawiau comisiynu oedd wedi eu hatodi i'r is-strategaeth ddrafft, er mwyn cywiro gwallau ac egluro rhannau aneglur. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cynnwys trosolwg o wariant, map staffio ac elfennau cysylltiedig fel rhan o'r drafft nesaf i'r Bwrdd ym mis Mawrth.<br><br>**Penderfyniad: Adolygu'r is-strategaeth gynnwys ymhellach yn sgil adborth aelodau'r Bwrdd, a chyflwyno drafft newydd ynghyd â'r cynllun gweithredu perthnasol i gyfarfod y Bwrdd ar 19 Mawrth 2026.**<br><br><u>Ail-sefydlu'r Pwyllgor Cynnwys</u><br><br>Yn sgil adolygiad Darwin Gray o drefniadau llywodraethu S4C, penderfynwyd dileu'r Pwyllgor Cynnwys blaenorol yn Hydref 2024. Fodd bynnag, yn sgil trafodaethau diweddar, roedd DE wedi dod i'r casgliad bod angen y Pwyllgor, gan nad oes gan y Bwrdd yr amser i ganolbwyntio ar agweddau strategol y cynnwys. Roedd DE felly wedi holi i DD, BP a CR fod yn aelodau anweithredol ar y Pwyllgor ar ei newydd wedd, gyda BP yn cadeirio.<br><br>**Penderfyniad: Penodi Betsan Powys i gadeirio'r Pwyllgor Cynnwys, Dyfrig Davies a Catrin Ramasut fel aelodau anweithredol, a'r aelodau gweithredol a enwebwyd gan y Prif Weithredwr (yn unol â'r cylch gorchwyl drafft a rannwyd).**<br><br>Codwyd y cwestiwn ynghylch sut i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i fod yn rhan o drafodaethau cynnwys S4C. Nodwyd mai rôl yr is-bwyllgorau yw craffu'n fanwl a chyflwyno materion perthnasol yn ôl i'r Bwrdd drwy'r Cadeirydd. Awgrymwyd felly y dylid asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Cynnwys newydd ymhen blwyddyn, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol, bod y Bwrdd yn dal i fod yn ymwneud â chynnwys, a bod y ffin rhwng rôl weithredol ac anweithredol yn cael ei barchu.<br><br>**Penderfyniad: Sefydlu Pwyllgor Cynnwys, a'i adolygu ymhen blwyddyn i sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion (ar yr un pryd â'r adolygiad blynyddol o holl bwyllgorau'r Bwrdd).**<br><br>[gadawodd MW y cyfarfod] | |
| 4. | [ymunodd CD a NB â'r cyfarfod]<br><br>**Cyfarfod blynyddol i'r Bwrdd gyda Carwyn Donavan, Bectu**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd CD i'r cyfarfod a diolchodd CD am y gwahoddiad, gan nodi bod aelodau Bectu yn fodlon ac yn gwerthfawrogi'r berthynas gadarnhaol gyda S4C. Nodwyd hefyd fod NB wedi creu argraff dda ar CD ac aelodau Bectu yn S4C ers iddi gychwyn fel Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn gynt eleni.<br><br>Croesawodd Bectu y weledigaeth glir sydd bellach ar waith ar gyfer dyfodol S4C fel cyflogwr modern. Mynegwyd cefnogaeth hefyd i'r trafodaethau ar setliad cyflog, gan nodi'r gydnabyddiaeth bod hyn yn fwy na chynnydd canrannol syml. Cafodd y bwriad i ddatblygu system strwythuredig ar gyfer cynnydd cyflog, ynghyd â chynnwys gweithwyr llawrydd, groeso arbennig. Cymeradwywyd y cynigion drwy bleidlais unfrydol – rhywbeth anghyffredin, sy'n dangos hyder cryf yn y dull gweithredu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Croesawodd Bectu'r ymgysylltiad cynnar gyda Sara P ynghylch cynlluniau i adael Project Diamond a chyflwyno fframwaith newydd ar gyfer monitro amrywiaeth ar y sgrin ac o fewn timau cynhyrchu. Gwelwyd y dull rhagweithiol hwn fel cam cadarnhaol tuag at sicrhau mwy o dryloywder a chynhwysiant ar draws y diwydiant.<br><br>Diolchwyd i CD am ei bresenoldeb yn y cyfarfod a'i waith gwerthfawr yn gyffredinol.<br><br>[gadawodd CD, NB a GB y cyfarfod] | |
| 5. | [ymunodd SG â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad gan Sioned Geraint, Comisiynydd Plant**<br><br>Croesawodd GE SG i'r cyfarfod gan bwysleisio bod gwleidyddion yn gyson yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys i blant – yn enwedig cynnwys PSB i blant. I S4C, mae'n hanfodol sicrhau arlwy o safon i blant yn y Gymraeg. Nodwyd hefyd fod y strategaeth yn crybwyll y syniad o sianel benodol i blant, a bod sianel ddigidol yn opsiwn y dylem ei archwilio ymhellach. Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o'n cynnwys plant ar HWB oherwydd ei natur addysgiadol, er nad yw wedi'i gomisiynu'n benodol ar gyfer y platfform hwnnw.<br><br>Yn ei chyflwyniad, nododd SG fod demograffeg y gynulleidfa iau yn newid, gyda mwy o blant yn byw mewn cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith. Mae cynnwys plant S4C yn aml yn dod yn bwynt cyswllt cyntaf i'r rhieni hyn gyda'r Gymraeg.<br><br>Mae S4C ar hyn o bryd yn comisiynu cynnwys plant ar gyfer oedrannau 0–15 oed. Nodwyd bod cynnwys plant yn gymwys ar gyfer credydau treth, tra bod cynnwys 16+ yn cael ei ystyried yn gynnwys oedolion ac felly'n anghymwys. Aeth SG drwy'r cynnwys sy'n cael eu comisiynu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.<br><br>Mae angen adolygu sianel Cyw ar YouTube, gyda Tecwyn Davies yn bwriadu trafod hyn gyda SG yn y flwyddyn newydd. Mae gofynion Ofcom yn golygu bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng cynnwys gwreiddiol, animeiddiadau ac ailddarllediadau. Yn ogystal, nodwyd nad oes trefniadau hyrwyddo cynnwys plant ar waith ar hyn o bryd, ac mae angen eu datblygu a bod digwyddiadau byw yn cynyddu mewn poblogrwydd ac yn cael eu gweld fel ffenest siop bwysig.<br><br>Nodwyd bod y gyllideb ar gyfer cynnwys plant wedi lleihau dros y blynyddoedd, tra bod costau wedi cynyddu, gan gyfyngu ar faint y gellir ei gomisiynu. Mae S4C yn ceisio manteisio ar economïau graddfa drwy gomisiynu sawl cyfres gyda'i gilydd. Roedd S4C yn arfer manteisio o gronfa'r 'Young Audiences Content Fund', ond daeth y gronfa i ben dair blynedd yn ôl. Mae'n bwysig felly ystyried faint o gyllideb i'w neilltuo ar gyfer cynnwys plant yn y dyfodol.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes data cyrhaeddiad ar gyfer plant iau, gan nad yw gwylwyr dan bedair oed yn cael eu mesur gan BARB. O ganlyniad, mae'n rhaid i S4C fuddsoddi mewn cynnwys plant heb ddata i gyfiawnhau'r gwariant, ond mae rhesymau clir dros barhau i'w gefnogi.<br><br>Holwyd sut y gall S4C weithio gyda'r sector addysg i annog athrawon i wneud gwell defnydd o adnoddau S4C ar HWB, yn hytrach na dibynnu ar yr un cnewyllyn o gynnwys | |

| | | |
|---|---|---|
| | bob tro. Nodwyd nad yw'r dechnoleg bresennol yn caniatáu i HWB gynnig popeth y mae S4C yn darparu, ond deallir bod HWB yn mynd allan i dendr, a disgwylir gwelliant yn y dechnoleg.<br><br>Mae rhaglenni fel *Y Coridor* ac *Itopia* yn cael eu defnyddio ar gyrsiau Cymraeg ail iaith TGAU, a *Hafiach* ar gyfer Safon Uwch. Mae S4C eisoes yn weithgar yn ddigidol gyda sianeli YouTube ar gyfer Cyw a Stwnsh, ac mae cynnwys wedi'i gomisiynu'n benodol ar gyfer y platfform hwn. Fodd bynnag, nodwyd heriau gyda llwyfannau cyhoeddi – nid yw YouTube yn cael ei reoleiddio, ac mae risg i blant ddod ar draws cynnwys anaddas. Mae rhywfaint o gynnwys hefyd wedi'i gyhoeddi ar TikTok, ond nodwyd bod cyfyngiad oedran (13+) yn berthnasol.<br><br>Diolchwyd i SG am ei chyflwyniad diddorol.<br><br>[gadawodd SG y cyfarfod] | |
| 6. | [ymunodd ShW ac EP â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad ariannol chwarterol (Ch 2)**<br><br>Gwnaeth y Cadeirydd croesawu ShW ac EP i'r cyfarfod, ac fe gyflwynodd EP yr adroddiad ariannol gan amlinellu'r newidiadau ers adroddiad Ch 1 ym mis Hydref.<br><br>Bydd gwaith archwilio allanol interim gyda'r NAO yn dechrau ym mis Ionawr, a byddant yn profi mwy o'n cynnwys a'n stoc bryd hynny (tua 75%) er mwyn lleihau faint o waith fydd angen ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nod y broses yw blaenlwytho cymaint â phosibl er mwyn hwyluso'r brif archwiliad allanol.<br><br>**Penderfyniad: Nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br>[gadawodd ShW ac EP y cyfarfod] | |
| 7. | **BBC/S4C: Partneriaeth newydd am y 10 awr/iPlayer**<br><br>Cyflwynodd GE y papur gan nodi bod Deddf Cyfryngau 2024 yn caniatáu newid trefniadau presennol gyda'r BBC – sef symud o ddarparu 10 awr o gynnwys yr wythnos i drefniadau amgen.<br><br>Cyflwynwyd y papur i geisio cydsyniad y Bwrdd mewn egwyddor i gyfnewid oriau o gynnwys er mwyn sicrhau nodweddion gwell i S4C a'n cynnwys ar yr iPlayer. Nodwyd bod angen trafodaethau pellach ynghylch costau'r trefniant. Byddai'r newid yn cynnig budd drwy gynyddu amlygrwydd S4C ar yr iPlayer, ond mae angen ystyried gwerth am arian.<br><br>Cydnabuwyd bod y weithrediaeth yn gwneud gwaith cadarn wrth negodi gyda'r BBC, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cadw opsiynau ar agor ar hyn o bryd. Mynegodd y Bwrdd ei fod yn gyfforddus i'r trafodaethau barhau ar sail y trefniant a'r ffi arfaethedig, gan gydnabod mai penderfyniad gweithredol fydd pennu manylion terfynol y cytundeb. Nodwyd y bydd angen adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, gan na all y BBC ymrwymo i drefniant hirdymor nes bod eglurder ynghylch yr adolygiad siarter. Pe byddai angen, gallai S4C ddychwelyd i'r trefniant presennol pe na bai'r nodweddion ychwanegol na'r amlygrwydd yn cyflawni fel y disgwylir. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: Cadarnhau bod y Bwrdd yn gyfforddus i'r weithrediaeth barhau i negodi gyda'r BBC ar sail y nodweddion a'r ffioedd a amlinellwyd yn yr adroddiad.** | |
| 8. | [ymunodd GB, EJ, MW a MEA â'r cyfarfod]<br><br>**Mesuryddion Strategaeth 2030**<br><br>Cyflwynodd GE brif agweddau'r papur, gan nodi bod y mesuryddion drafft wedi'u diwygio mewn ymateb i adborth blaenorol y Bwrdd. Amlinellwyd y trefniadau adrodd arfaethedig, fyddai'n cynnwys diwygio'r dashfwrdd cynnwys misol sy'n cael ei gynhyrchu gan y Tîm Ymchwil, a llunio diweddariad mwy manwl bob chwe mis i'w drafod gan y Bwrdd. Bydd y diweddariadau chwe misol yn cynnwys naratif dadansoddol er mwyn rhoi cyd-destun i'r data a gyflwynir.<br><br>Holwyd ynghylch dibynadwyedd ffigurau BARB a'r cwestiwn a oes digon o fesuryddion i allu dangos i randdeiliaid fod rhai dangosyddion yn cadarnhau ein perfformiad da, hyd yn oed os yw data BARB yn awgrymu fel arall. Nodwyd bod y mesuryddion blaenorol yn llinol iawn, ac mae cyflwyno data ar ddefnyddwyr misol Clic, iPlayer ac YouTube yn cynnig gwell darlun o dwf yn yr agwedd ddigidol.<br><br>Codwyd cwestiwn ynghylch a oes ffigwr cyfansawdd sy'n cynnwys pob platfform. Eglurwyd bod BARB yn mesur cyrhaeddiad ar draws llwyfannau gwylio ar deledu (DTT, Lloeren, Clic, iPlayer). Nodwyd mai maint y sampl yw'r her, gan effeithio ar berfformiad rhaglenni unigol, ond mae'n dal i ddarparu mesuriad ehangach o gyrhaeddiad. Cadarnhawyd hefyd mai BARB yw'r system y mae'r BBC yn ei defnyddio i fesur perfformiad cynnwys ar yr iPlayer, ynghyd â data ceisiadau.<br><br>Nodwyd bod rhai gwleidyddion weithiau'n cwestiynu'r defnydd o gyrhaeddiad fel mesur, gan nad yw bob amser yn adlewyrchu lefelau gwylio selog. Nodwyd hefyd nad yw gwylio plant yn cael ei fesur gan BARB, er bod tystiolaeth yn awgrymu bod perfformiad S4C yn gryf yn y maes hwn. Trafodwyd felly bwysigrwydd defnyddio naratif ehangach, ochr yn ochr â'r mesuryddion, i egluro llwyddiant y gwasanaeth i randdeiliaid.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwyo'r mesuryddion a'r trefniadau adrodd a amlinellwyd yn y papur.**<br><br>Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol trefnu pwyntiau bwled ar gyfer aelodau'r Bwrdd, gan amlinellu'r prif bwyntiau i'w diweddaru er mwyn rhannu negeseuon allweddol ar ran S4C gyda gwahanol randdeiliaid. Y gobaith fyddai rhannu tair neu bedair neges chwarterol gyda'r Bwrdd, gan gynnwys enghreifftiau o raglenni llwyddiannus, gwobrau ac eitemau perthnasol eraill.<br><br>**Penderfyniad: Trefnu pwyntiau bwled chwarterol ar gyfer aelodau'r Bwrdd sy'n crynhoi'r prif negeseuon iddynt rannu gyda rhanddeiliaid.**<br><br>[gadawodd EJ, MW a MEA y cyfarfod] | |
| 9. | **Gweithgareddau gwleidyddol gan aelodau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd y papur er mwyn rhoi eglurder i aelodau'r Bwrdd ynghylch gweithgareddau gwleidyddol, yn enwedig yng nghyd-destun etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai. Nod y papur oedd sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r fframwaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | presennol, ac i roi cyfle i'r Bwrdd drafod a oedd y canllawiau'n parhau'n briodol ac yn ddigonol.<br><br>Trafododd y Bwrdd y papur, gan nodi nad oes cyfyngiadau ffurfiol ar weithgaredd gwleidyddol personol gan aelodau'r Bwrdd, megis canfasio, ond bod angen ymarfer doethineb a cheisio cyngor gan GP os oes amheuaeth. Cytunwyd felly nad oedd angen datblygu unrhyw ganllawiau pellach.<br><br>Nodwyd na fyddai'n briodol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fynegi mynegi unrhyw safbwynt gwleidyddol yn sgil eu swyddogaethau fel llefarwyr cyhoeddus ar ran S4C.<br><br>Pwysleisiwyd hefyd yr angen i holl aelodau'r Bwrdd osgoi mynegi barn ar faterion sy'n effeithio ar S4C neu ymddangos yn bleidiol – yn enwedig yn ystod cyfnod purdah cyn yr etholiad, sy'n arbennig o sensitif. Nodwyd na ellir mynegi barn ar faterion darlledu megis datganoli, er bod hawl i fynegi safbwyntiau ar faterion cyffredinol fel amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. | |
| 10. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 20/11/2025)<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 26/11/2025)<br>• Y Pwyllgor Achosion<br><br><u>Y Pwyllgor Archwilio a Risg</u><br><br>Tynnodd SuD sylw'r Bwrdd at brif agweddau'r Pwyllgor, gan gynnwys yr atodiad oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol mewn perthynas â diogelu data.<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>Gwnaeth GE tynnu sylw'r Aelodau at brif agweddau Bwrdd y Grŵp Masnachol gan nodi bod incwm o hysbysebion i lawr (yn sgil ffigyrau gwylio BARB), ond bod nawdd wedi codi.<br><br><u>Y Pwyllgor Achosion</u><br><br>Nodwyd trafodaethau'r Pwyllgor. | |
| 11. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Adroddiad yr Uwch Dîm Arwain</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd yr adroddiad.<br><br>Ystadegau Pobl a Diwylliant (i gynnwys data hyfforddiant sector)<br><br>Cadarnhawyd y bydd cyfle i drafod ystadegau Pobl a Diwylliant yn fwy manwl gyda NB yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth, pan fydd hi'n ymuno i gynnig diweddariad ar y gwaith diwylliant mewnol gyda Dr Ioan Rees.<br><br>Hyfforddiant i'r sector mae S4C yn ei gefnogi<br><br>Nodwyd bod tair ysgoloriaeth ar waithTrafodwyd a oes angen eu hadolygu neu newid yr hyn sy'n cael ei gynnig. Cytunwyd y bydd GE yn trafod gyda NB i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd yn y cyfamser.<br><br>**Penderfyniad: Adolygu'r ysgoloriaethau nad oeddent wedi denu ceisiadau ar eu cyfer i weld a oes gwerth eu diwygio.**<br><br>Adroddiad ariannol chwarterol y Grŵp Masnachol (Ch 2)<br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br>Adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r BBC, cyhyd â bod y geiriad ynghylch fframwaith asesu perfformiad yn cael ei ddiwygio.**<br><br>Adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Matrics Archwaeth Risg, yn unol â'r hyn oedd yn yr adroddiad.**<br><br>Diweddariad ar faterion pwrpas cymdeithasol<br><br>Nodwyd bod gwaith da wedi'i wneud ar y diweddariad, ac y bydd cyfle i drafod ymhellach gyda'r tîm Pwrpas Cymdeithasol pan fyddant yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2026.<br><br>Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 480, a gynhaliwyd ar 23/10/2025.**<br><br>Pwyntiau Gweithredu<br><br>Nodwyd y Pwyntiau Gweithredu.<br><br>Rhaglen Waith<br><br>Nodwyd y Rhaglen Waith. | |
| 12. | **Unrhyw fater arall** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Trafodwyd yr angen i ailedrych ar gynnwys adran yr 'Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth', a chytunwyd i atgoffa aelodau i anfon unrhyw gwestiynau ymlaen llaw, cyn 12:00 y diwrnod cynt.<br><br>**Penderfyniad: Adolygu pa adroddiadau sy'n cael eu cynnwys yn yr 'Atodiadau' i'r dyfodol.** | |